

ECAD7003 Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: Lle ydw i'n addysgu?

	Targed/target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn What I have done in this assignment...
Targed/Target 1	Ymgysylltu â llenyddiaeth yn fwy er mwyn cryfhau'r sgil o ddadansoddi'n feirniadol.	Rwyf wedi ceisio dadansoddi'r llenyddiaeth a gasglais gan gymharu barn damcaniaethwyr.
Targed/Target 2	Datblygu eich sgiliau cyfeirnod ymhellach, e.e. dyfyniad byr o fewn y testun.	Rwyf wedi defnyddio canllaw cyfeirnod i'r brifysgol er mwyn sicrhau fy mod i'n cyfeirnod i'n gywir yn ystod y traethawd.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Cyflwyniad:

Yn yr adroddiad, ceir trafodaeth ynglŷn â sut y ceisia'r ysgol weithredu un agwedd benodol o gynllun datblygu'r ysgol a beth yw'r camau gweithredu er mwyn sicrhau'r allbwn ac effaith gorau i'r ysgol. Seilir yr adroddiad ar gynllun datblygu Ysgol X. Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg X tu allan i Abertawe, ac mae'n rhan o awdurdod lleol Sir Abertawe. Nodwyd gan Estyn (2018) bod tua 500 o blant rhwng 3 a 11 oed yn mynychu'r ysgol gydag ond tua 10% ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Un o brif nodau'r ysgol yw hyrwyddo Cymreictod a datblygu disgyblion hapus a llwyddiannus. Ers 2014, mae'n ysgol arloesol o ran treialu Cwricwlwm Newydd i Gymru ac ar hyn o bryd gweithreda'r ysgol gwricwlwm newydd o ddydd i ddydd. Ffocws yr adroddiad hwn yw craffu ar un o nodau'r ysgol eleni, sef gwella sgiliau cerddorol y disgyblion a'u gallu i ganu offerynnau. Cyfeiria'r adroddiad at yr hyn sy'n digwydd o ran y cyd-weithio rhwng staff, dysgwyr a'r gymuned er mwyn gwella'r agwedd gerddorol o fewn yr ysgol.

Adolygiad Llenyddiaeth:

Yn ôl Brighthouse, et al. (2013) bu cynllun datblygu ysgol yn nodwedd fawr o fewn ysgolion ers Deddf Addysg 1992. Cyflwynodd y ddeddf honno raglen genedlaethol o arolygiadau a gofynnodd y fframwaith cyntaf am farnu ysgolion ar ansawdd y cynllun datblygu. Dywedir bod creu cynllun datblygu yn darparu datganiad clir i'r ysgol gyfan o ran y blaenoriaethau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer cynnydd a gwella'r ysgol. Yn yr un modd, noda Mistral (2013) bod cynllun datblygu ysgol yn broses unigryw i'r ysgol honno a dylai'r disgyblion fod yn flaenoriaeth drwy'r holl broses.


Mankind owes to children the best it has to give. Their life is fragile. If they are to have tomorrow, their needs must be met today. (Mistral.G, 2013:5)

Esbonia Llywodraeth Cymru (2014) mai cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella yw cynllun datblygu. Nodir y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i wella canlyniadau a chynnydd y dysgwyr. Caiff y cynllun ei lywio gan athrawon yn hunanarfarnu eu perfformiad a'u data o gynnydd y disgyblion yn rheolaidd. Bydd yn cynnwys blaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â thargedau tymor byr a hir. Dylai cynllun datblygu ysgol nodi sut y bydd yr ysgol yn cyflawni pob targed o dan bob blaenoriaeth a hefyd, sut y bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw gyllid er mwyn cyflawni'r nod.

Gellir gweld effeithlonrwydd yng ngwaith cynllunio Ysgol X wrth gynhyrchu'r cynllun datblygu cyfredol gan fod camau clir wedi'u nodi a bod y targedau yn weithredol dan arweiniad athrawon penodol. Noda'r cynllun ddyddiadau penodol er mwyn hunanarfarnu ac asesu cynnydd darpariaeth yr ysgol a pherfformiad y disgyblion.

Dengys y model isod gan Lywodraeth Cymru (2014) bwysigrwydd pob cam o greu cynllun datblygu ysgol effeithiol. Gellir cymharu'r camau isod â chynllun Gov (2010), a gwelir bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r un strwythur â Llywodraeth Lloegr.

Ffigur 1: Cylch llunio cynllun datblygu ysgol



Eglura canllawiau'r Llywodraeth (2014) y dylai cynllun datblygu ysgol adlewyrchu gweledigaeth unigryw yr ysgol. Nodir y dylai ysgol ystyried y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo a chytuno ar weledigaeth sy'n ysgogol ac yn gyraeddadwy.

Y camau nesaf yn y cylched yma yw hunanarfarnu. Dyma'r ffordd y mae ysgolion yn myfyrio ar eu perfformiad a defnyddir hynny fel sail ar gyfer creu cynllun datblygu ysgol cynaliadwy. Mae'r broses hon yn ganolog i gefnogi datblygiadau mewn gwella agweddau o fewn ysgolion, dysgu proffesiynol parhaus a chanlyniadau dysgwyr. Dywedir hefyd fod hunan arfarnu yn ddull allweddol er mwyn cynorthwyo ysgol i asesu ei pherfformiad cyfredol; cryfderau a gwendidau'r ysgol, a pha gamau pellach sydd angen eu cymryd.

Pwysleisir y dylai holl bartneriaid a rhanddeiliaid fod yn bresennol wrth gynllunio cynllun datblygu ysgol effeithiol. Dywedir bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan bawb ymrwymiad i wella'r ysgol. Gellir hefyd weld cyfeiriad at y ddamcaniaeth hon yn adroddiad Estyn (2019):

A culture of improvement permeates the whole school and, together with rigorous planning and excellent working relationships between pupils and adults, helps to achieve excellent standards consistently across the school. (Estyn,2019:)

Er mwyn sicrhau cynllunio strategol ac effeithiol, rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r pennaeth, staff yr ysgol, y dysgwyr a'u rhieni/gwarchodwyr. Awgrymir bod cynnal sgwrs a chasglu syniadau ac adborth oddi wrth y bobl hynny'n rhan hanfodol o'r broses gynllunio. Yn ôl y Llywodraeth (2014), cynorthwya'r broses hon yr ymdeimlad o berchnogaeth a chydweithio tuag at wella. Caiff hyn ei wneud yn drwyadl gan Ysgol X. Y cam nesaf yn y cylch cynllunio yw gweithredu'r camau a'r strategaethau a nodwyd. Pwysleisia Llywodraeth Cymru (2014) y dylai pob ysgol ystyried ei chynllun datblygu fel dogfen fyw, i'w monitro'n rheolaidd wrth weithredu'r targedau. Mae Ysgol X yn dilyn awgrymiadau'r Llywodraeth wrth adolygu'r cynllun yn gyson yn ystod y flwyddyn er mwyn monitro cynnydd. Er y cylched cynllunio a awgrymir gan Lywodraeth Cymru (2014), pwysleisia Tracy (2012) mai'r hyn sy'n allweddol yw mesur yr effaith ar gyrhaeddiad disgyblion yn hytrach na chanolbwyntio ar ansawdd y cynllun ei hunan; ond ategir hyn gan Llywodraeth Cymru (2014) yn ogystal: "The impact on learner outcomes will be seen as the measure of its effectiveness rather than the production of the plan itself" (Llywodraeth Cymru, 2014:7).

Ffocws yr adroddiad yma yw'r elfen gerddorol a ddatblygir o fewn Ysgol X. Gwelir yn namcaniaeth Stone (2014) bwysigrwydd cerddoriaeth fel pwnc allweddol o fewn y cwricwlwm. Noda'r effeithiau positif y caiff datblygu sgiliau cerddorol ar ddisgyblion. Awgrymodd Buchanan (2013) fod datblygu sgiliau canu offerynnau cerddorol yn ysgogi ac yn cryfhau rhai o synwryddion yr ymennydd. Dywed hefyd fod disgyblion sy'n cael hyfforddiant cerddorol yn gallu rhesymu'n haniaethol, a bod y sgiliau hyn yn angenrheidiol ar gyfer Mathemateg a Gwyddoniaeth. Pwysleisia Stone (2014) bod cerddoriaeth yn cael effaith ar dwf plant a'u gallu i ymestyn a datblygu sgiliau newydd.

Learning music can improve childrens spatial awareness, motor skills, self-esteem and achievement in mathamatics and language. (Rauscher et al.1997:119)

Mae Stone (2014) hefyd yn pwysleisio'r effaith mae'r sgil gerddorol yn cael ar y meddwl.: "It will keep your mind alert and sharp at all times" (Stone, 2014:4).

Datblygir disgyblaeth yr unigolyn wrth weithio ar ddatblygu sgiliau cerddorol gan fod y corff yn ymgyfarwyddo â'r gyfundrefn o ymarfer. Cytuna Steinhoff (2016) â damcaniaeth Stone (2014) am sgiliau cerddorol yn datblygu twf plentyn gan nodi bod plentyn a gafodd gyswllt cynnar â cherddoriaeth yn datblygu'r gallu i siarad yn gliriach, datblygu geirfa ehangach ac yn cryfhau ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn gyflymach na phlentyn heb gyswllt cerddorol o fewn ei blentyndod cynnar. Atgyfnerthir yr un neges gan Papousek (1996); "Music is helpful in the development of a child's individual cognitive capabilities and provides opportunities for social interaction" (Papousek, 1996:118).

Dywed Llywodraeth Cymru (2017) fod angen ysgolion cryf a chynhwysol sy'n gallu ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles disgyblion. Amlyga'r ddogfen rôl ysgolion hyd at y flwyddyn 2021 a seilir yr argymhellion ar gwricwlwm newydd Donaldson a'r pedwar diben. Gan fod yr adroddiad hwn ar Ysgol X yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth i ddatblygu sgiliau cerddorol disgyblion, gellir gweld cyswllt ag un o brif ddibenion Donaldson (2015), sef i fod yn gyfranwyr creadigol a mentrus.

Nodir yng nghynllun gweithredu'r Llywodraeth (2017) bod angen i ysgolion gynnwys bob dysgwr o fewn gweithgareddau a gwersi cwricwlaidd er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb drwy: "Establish a National Endowment for Music to ensure that all our young people, from whatever background, can develop their talents and skills through music" (Llywodraeth Cymru 2017:32).

Gwelwyd cryn drafodaeth yn y wasg yn y blynyddoedd diwethaf am bryderon yn ymwneud â cherddoriaeth mewn ysgolion. Mewn erthygl gan BBC Cymru (2018) 'Ffigyrau: Llai o ddisgyblion yn astudio cerddoriaeth', nodir:

fe wnaeth nifer y disgyblion a safodd arholiad Safon Uwch yn y pwnc eleni haneru o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl, ac fe wnaeth 42% yn llai sefyll arholiad TGAU.....mae'r nifer wnaeth sefyll arholiad TGAU Cerddoriaeth wedi disgyn o 3,779 i 2,201 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. (BBC Cymru, 2018)

Nodir yn yr erthygl mai dim ond y disgyblion 'elitaidd' fydd yn gallu fforddio i ddysgu chwarae offeryn. Yn sgil y pryderon hyn y lansiwyd "Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth" gan Kirsty Williams. Y bwriad oedd cefnogi pobl ifanc ar hyd a lled y wlad i ddatblygu eu doniau ym maes cerddoriaeth. Bydd y cyfraniad cychwynnol o £1 miliwn yn cael ei roi i Gyngor Celfyddydau Cymru. Dyma'r cefndir cymdeithasol, felly, i amcan Ysgol X wrth ffocysu ar y targed hwn. Pwysleisia'r damcaniaethau uchod bwysigrwydd darparu gwersi cerddoriaeth i bob disgybl. Amlyga'r uchod fod disgyblion, wrth gael profiadau cerddorol, yn datblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddiadwy sy'n helpu gydag agweddau megis gwaith tîm a chyflawni tasgau mewn amser penodol. Felly, dyna yw cefndir penderfyniad Ysgol X dros roi blaenoriaeth i'r agwedd hon ar y cwricwlwm.

Datblygu Pwynt gweithredu:

Lluniodd Ysgol X y cynllun datblygu presennol ym mis Gorffennaf 2019. Bwriad yr ysgol oedd i'r Uwch Dim Arwain ei adolygu ym mis Mawrth 2020 ac yna ei werthuso gyda'r staff cyfan ym mis Gorffennaf 2020 er mwyn asesu cynnydd a gosod targedau newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Gwelwyd bod cynllun datblygu Ysgol X wedi'i gynllunio'n strategol â strwythur clir. Cynhwysir 7 blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol gyda nifer o dargedau yn deillio o bob blaenoriaeth. Rhestrir y targedau mewn modd mesuradwy gan nodi pwy sy'n gyfrifol am bob targed. Rhannwyd pob aelod o staff yr ysgol i dîmau Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ac mae'r tîmau hynny yn cwrdd yn gyson er mwyn craffu ar ddogfennau megis adroddiadau Estyn a thrafod cryfderau a gwendidau'r MDaPh hynny o fewn yr ysgol ar hyn o bryd. Daw ffocws yr adroddiad hwn, cerddoriaeth, o dan ofal MDaPh y celfyddydau mynegiannol, a hwythau sy'n gyfrifol am flaenoriaeth 5 ar y Cynllun Datblygu. Cynhaliwyd arolwg yn yr ysgol yn 2018 (Estyn, 2018), a phwysleisia'r adroddiad y gwaith da a wna'r ysgol yn y gymuned drwy fynd a chôr yr ysgol i ymweld ag ysbytai a chartrefi gofal hen oed. Canmolir, felly, bod aelodau côr yr ysgol yn cael llawer o gyfleoedd allgyrsiol i ymestyn eu dawn gerddorol, ond ni sonia'r adroddiad am yr hyn a wneir yn gerddorol o fewn gwersi cwricwlaidd. Y llynedd, yng nghanol y sylw cenedlaethol i ddarpariaeth cerddoriaeth mewn ysgolion (a amlinellwyd uchod), penderfynodd yr ysgol fod angen sicrhau bod **pob** disgybl o fewn yr ysgol yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau cerddorol yn ystod gwersi cwricwlaidd. Mae'r weledigaeth hon yn cyfateb i ofynion Cwricwlwm Newydd i Gymru (Donaldson, 2015). Drwy anelu at wella sgiliau cerddorol y disgyblion, byddant yn datblygu i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, ac yn brofiadol o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Celfyddydau Mynegiannol.

Felly, nod yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd hon yw gwella sgiliau cerddorol y disgyblion drwy ddatblygu sgiliau canu offerynnau a chreu cerddoriaeth greadigol. Gan fod arbenigwr cerddorol yn athro yn yr ysgol, hi sy'n gyfrifol am ddarparu gwersi cerddoriaeth i bob dosbarth yng nghyfnod allweddol dau. Yn y cynllun datblygu, eglurir hefyd sut y bydd arbenigwr allanol yn cynnal sesiynau hyfforddiant i ddisgyblion ar gerddoriaeth greadigol. Gellir gweld bod y sesiynau wedi'u hamserlenni yn wythnosol yn amserlen yr ysgol, a nodir bod yr ysgol am fuddsoddi mewn ukuleles fel offerynnau ychwanegol i'r hyn sydd ganddynt eisoes. Ond, nid yw'r cyllid wedi ei nodi ar y cynllun datblygu ac, oherwydd hyn, nid yw **maint** y buddsoddiad yn glir.

Wrth gwrs, un her a ddaw gyda'r flaenoriaeth yma yw **mesur** y cynnydd ac **effaith** unrhyw ddarpariaeth newydd. Fel y dywed Didau (2019): "One problem is that creativity is tough to pin down!" Ar hyn o bryd, caiff datblygiad sgiliau cerddorol y disgyblion eu mesur drwy ddefnyddio'r rhaglen 'Incerts' i gofnodi targedau a lefelau'r disgyblion. Cynhwysa'r rhaglen ddatblygiad pob disgybl ers cychwyn yn yr ysgol. Modd arall o fesur cynnydd cerddorol yw monitro gallu'r disgyblion i ddarllen cerddoriaeth, er enghraifft, canu offeryn neu ymateb i rythmau penodol.

Nid yw cynllun datblygu Ysgol X yn cynnwys llawer o ddata mesuradwy ynglŷn â chynnydd lefelau disgyblion. Ond ni nododd Estyn (2018) fod gwendidau o ran y maes celfyddydau mynegiannol, felly, mae'n amlwg i'r datblygiad hwn godi o adnabyddiaeth y staff o anghenion yr ysgol.

Adfyfrio a gwerthuso:

Gwelir llawer o waith cerddorol allgyrsiol o fewn yr ysgol e.e. ymarferion côr ar gyfer yr Ŵyl Gerdd Dant ac Eisteddfod yr Urdd, ond, nodir yn glir ar y cynllun mai'r bwriad yw gwella sgiliau cerddorol yr **holl** ddisgyblion o fewn gwersi cwricwlaidd. Eleni, gweithiodd Ysgol X yn gyson i wella sgiliau cerddorol y disgyblion er mwyn cyrraedd y nod erbyn Gorffennaf 2020.

Darperir gwersi cerddoriaeth wythnosol i bob dosbarth CA2 gan aelod o staff sy'n arbenigo yn y maes. Yn ystod y gwersi hyn datblyga'r disgyblion eu sgiliau ar gyfer creu cerddoriaeth greadigol. Gellir cymharu gweledigaeth Ysgol X ac amcan Donaldson (2015), (sef i fod yn "gyfranwyr creadigol a mentrus") â gweledigaeth cwricwlwm Lloegr wrth bwysleisio pwysigrwydd cynnal gwersi cerddoriaeth o fewn yr ysgol. Esiaml o hyn yw'r dyfyniad: "We teach music in schools because it is a powerful, unique form of communication that can change the way pupils feel, think and act" (DfEE/QCA,1999:119).

Er mwyn ymestyn hyn, derbynia'r disgyblion hefyd wersi cerddorol gan aelodau o staff y sir. Yn ogystal â gwersi offerynnol unigol i ddisgyblion hyn yr ysgol, mae'r dosbarth cyfan yn cael gwersi ffdl, recorder ac ati ym mlwyddyn 3 a 4 er mwyn datblygu'r sgil o ganu offeryn. Profodd Stone (2014) bod y gallu i chwarae neu ddarlenn cerddoriaeth yn esblygu hyder unigolion ac yn rhoi synnwyr o gyfrifoldeb iddynt. Felly, yn dilyn y gwersi hyn, fe fydd rhai disgyblion yn gallu datblygu'r sgiliau ymhellach o fewn gwersi unigol.

Ar ôl cyfarfod gyda'r pennaeth a'r uwch dîm ym mis Mawrth, gwelir bod yr ysgol ar y trywydd iawn, ond yn ei gweld hi'n anodd mesur datblygiad sgiliau canu offerynnau pob plentyn, gan fod hwn yn rhywbeth sy'n datblygu dros gyfnod estynedig o amser. Wrth gyfeirio at gyd-destun ehangach dysgu unrhyw sgil newydd, pwysleisia Sherrington (2017:63) bwysigrwydd "ymarfer" a gwneud cynnydd mewn camau bach. Yn amlwg, mae hyn yn berffaith wir am y cyd-destun cerddorol hwn.

Gan fod y flaenoriaeth hon yn newydd eleni, nid oes blynyddoedd o ddata ar gael er mwyn gallu olrhain cynnydd. Pe bai data craidd wedi cael eu nodi, byddai modd mesur effeithiolrwydd y camau gweithredu a ddilynwyd yn fwy dibynadwy ym mis Gorffennaf. Er mwyn mesur cynnydd, fe fydd angen i'r ysgol gadw cofnod ar ddatblygiad disgyblion o fewn sgiliau ymarferol, creu cerddoriaeth a canu offerynnau, er mwyn gweld gwir effaith cynnydd dros gyfnod o flynyddoedd. Nododd y pennaeth y ceisiai'r yr ysgol sicrhau cyfleoedd cerddorol i bob disgybl yn CA2 yn rheolaidd yn ystod gwersi cwricwlaidd ac yn allgyrsiol. Hyd yn hyn nid oes unrhyw gynlluniau gan yr ysgol am ddatblygu sgiliau cerddorol yn fwy amlwg yn y cyfnod Sylfaen. Felly, cam naturiol pellach i'r ysgol fyddai olrhain datblygiad sgiliau cerddorol y disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen yn fwy ffurfiol. Er mwyn parhau i ddatblygu sgiliau cerddorol disgyblion yr ysgol gyfan gellir awgrymu bod angen i'r ysgol fuddsoddi'n ariannol e.e. er mwyn prynu mwy o offerynnau amrywiol e.e. allweddellau, a hefyd, gallai'r ysgol drefnu bod cerddorion enwog Cymru yn ymweld â'r disgyblion i gynnal gweithdai. Nid yn unig y byddai hynny'n datblygu sgiliau'r disgyblion, ond byddai'r cyfle i weithio gydag eraill o'r gymuned a thu hwnt yn meithrin diddordeb y disgyblion yn y maes hwn ac yn codi lefel cymhelliant.

Casgliad:

Datblygodd yr astudiaeth hon fy nealltwriaeth o sut i osod a gweithredu gwelliannau o fewn ysgol. Gwelwyd strategaethau penodol er mwyn cynllunio'n fwriadol ar gyfer creu cynllun datblygu ysgol, a phwysleisia Llywodraeth Cymru (2014) fod angen creu cynllun strwythuredig sy'n addas ar gyfer anghenion unigryw disgyblion yr ysgol. Ehangwyd fy ngwybodaeth o'r camau sy'n ddisgwyliedig gan y llywodraeth er mwyn cyflawni huanarfarniad digonol. Gwelwyd pwysigrwydd cyfraniad yr holl rhanddeiliaid- yn staff, disgyblion a rhieni, at y cynllun fel bod gan bob un berchnogaeth ohono. Dylid ail ymweld â'i adolygu'n gyson er mwyn adfyfrio ac asesu cynnydd y blaenoriaethau. Fel athrawes rwyf nawr yn ymwybodol o bob cam cynllunio. Yn broffesiynol mae'r ddealltwriaeth o'r broses hon

yn mynd i ddylanwadu ar fy null i o weithredu - gan fod angen i bob athro mewn gwirionedd ddilyn cynllun personol tebyg o fyfyrrio, gosod targedau, gwerthuso ac ail osod targedau. Cysyllta rhain â'r safonau proffesiynol athrawon megis arweinyddiaeth, cydweithredu a hyrwyddo dysgu. Bwriad cynlluniau datblygu yw dilyn yr un broses ar lefel ysgol gyfan. Sylweddolaf fy mod i'n chwarae rôl yn y broses hon wrth ymateb i anghenion a galluoedd amrywiol y disgyblion o fewn ein gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Llyfryddiaeth:

Boys.R, Spink.E (2013) *Primary Curriculum Teaching the Foundation Subjects*. Bloomsbury Academic:London

Brighouse.T, Woods.D (1999) *How to improve your school*. RoutledgeFalmer:London

Brighouse.T, Woods.D, (2013) *The A-Z of School Improvement Principles and Practice*. London: Bloomsbury Education

Didau.D (2019) *Making Kids Celfarer*. Crown house publishing: Carmarthen

Estyn (2018) *Adroddiad Estyn Ysgol X* <[https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/\[REDACTED\]/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/\[REDACTED\]-estyn.pdf](https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/[REDACTED]/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/[REDACTED]-estyn.pdf)> Darllenwyd: 20/03/20

Estyn (2019) *Pupils lead their own learning experience*.
<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/pupils-lead-their-own-learning-experience>
Darllenwyd: 07/03/20

Gov (2010) *Every School a Good School School Development Planning*.
<https://www.education-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/de/every-school-a-good-school-school-development-planning-guidance-2010-english-version.pdf> Darllenwyd: 29/03/20

Llywodraeth Cymru (2014) *School Development Plans*.
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf>
Darllenwyd: 25/03/20

Llywodraeth Cymru (2017) *Educational wales Our national mission*.
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf> Darllenwyd: 27/03/20

National Association for Music Education (2014) *Important benefits of music in our schools*.
<https://nafme.org/20-important-benefits-of-music-in-our-schools/> Darllenwyd: 19/03/20

Sherrington.T (2017) *Rosenshine's Principles Action*. John Catt Education: Suffolk, UK

Steinhoff.A (2016) *The importance of music in early childhood development*
<https://novakdjokovicfoundation.org/importance-music-early-childhood-development/>
Darllenwyd: 15/03/20

Stone.D (2014) *10 Reasons why you should learn to play an instrument.*

<https://www.normans.co.uk/blog/2014/04/10-reasons-learn-play-musical-instrument/>

Darlennwyd: 14/03/20

Tracey.D (2012) *School Improvement: Revitalize Your School with strategic planning.* Xlibris
US:USA

Williams.K (2017) *Cyhoeddi'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth.*

<https://llyw.cymru/cyhoeddir-gwaddol-cenedlaethol-ar-gyfer-cerddoriaeth> Darlennwyd:

15/03/20